



Gorffennaf 15, 2013

## Croeso i Flwyddyn 7 yn Ysgol Tryfan ym mis Medi, 2013

Annwyl **Rieni**

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol fel hyn hoffwn ddymuno'n dda i bob un ohonoch dros wyliau'r haf. Rwy'n sicr y bydd eich dyddiau olaf yn yr ysgol gynradd yn gyfuniad rhyfedd o dristwch a chyffro a hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion cynradd am weithio'n galed gyda chi a'ch paratoi i drosglwyddo atom yn Ysgol Tryfan.

Yn gyntaf hoffwn eich hysbysu na fyddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion tan **ddydd Mercher y 4ydd o Fedi 2013**. Mae hyn yn wahanol i nifer o ysgolion cynradd y dalgylch ac ymddiheuraf os yw hyn yn peri anhawster i rai rhieni, ond fel ysgol sy'n wynebu Arolygiad Estyn yn ystod y tymor nesaf (dyddiad heb ei gadarnhau) rydym wedi penderfynu defnyddio dau ddiwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddechrau'r tymor.

Mae cloch gyntaf y dydd yn canu am 8.55 ar gyfer y cyfnod cofrestru. Ar y dydd Mercher cyntaf hwn fe ddisgwyliwn i ddisgyblion newydd blwyddyn 7 ddod atom i Neuadd yr ysgol i gyfarfod eu Pennaeth Blwyddyn a'u hathrawon bugeiliol.

Hyderaf fod pob un ohonoch wedi derbyn copi o Lawlyfr yr Ysgol sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi wrth baratoi i ddod atom. Gellir cael mynediad i gopi o'r Llawlyfr ar wefan yr ysgol - [www.ysgoltryfan.org](http://www.ysgoltryfan.org) – ar y brif dudalen ar gyfer Rhieni. Hoffwn eich annog beth bynnag i droi at y wefan er mwyn cael blas o fywyd yr ysgol. Byddai'r adran Newyddion a'r Albwm Lluniau o ddiddordeb arbennig felly i chi fel darpar ddisgyblion.

Er gwybodaeth i chi rwy'n atodi'r dudalen berthnasol allan o'n Llyfr Cartref Ysgol sy'n manylu ar ein gwisg ysgol. Mae'r dudalen hon yn manylu ar ein disgwyliadau ac mae'r wisg ar gael i'w phrynu o fwy nag un siop ar y Stryd Fawr ym Mangor.

Bydd gan rai ohonoch frodyr neu chwiorydd hŷn ac yn ymwybodol ein bod yn mynd â disgyblion blwyddyn 7 newydd i Lan Llyn yn flynyddol ym mis Medi. Eleni, o ganlyniad i'r Arolygiad arfaethedig, rydym wedi gohirio'r profiad pwysig hwn tan ddechrau ail hanner y tymor ym mis Tachwedd. Cewch ragor o wybodaeth wrth gwrs am y daith i Lan Llyn pan ddewch atom ym mis Medi. Byddwn fodd bynnag yn cynnal gweithgareddau anwytho yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn eich helpu i setlo'n dda yn yr ysgol.

Felly hoffwn ddymuno haf hir, diogel a heulog i chi eleni - ac edrychaf ymlaen yn arw i'ch gweld yn Ysgol Tryfan ar y 4ydd o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur  
Pennaeth



Ysgol Tryfan  
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU  
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264  
[pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk) [www.ysgoltryfan.org](http://www.ysgoltryfan.org)

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

